OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 2705

# Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

## RHAN 4

Y gofynion ar gyfer Eitemau Ceramig

### Dehongli'r Rhan hon

**9.** Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "eitem geramig" ("*ceramic article*") yw eitem y mae Rheoliad 1935/2004 yn gymwys iddi yn rhinwedd ei Erthygl 1(2) fel y'i darllenir gydag 1(3) a honno'n eitem—

(i) a weithgynhyrchwyd o gymysgedd o ddeunyddiau anorganig gyda chynnwys cleiog neu silicad uchel yn gyffredinol y mae'n bosibl bod meintiau bach o ddeunyddiau organig wedi eu hychwanegu atynt,

(ii) sy'n cael ei siapio'n gyntaf a bod y siâp a geir drwy hyn wedi ei osod yn barhaol drwy ei thanio, a

(iii) y gellid ei gwydro, ei henamlo a/neu ei haddurno; a

F1(b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 9(b) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/425), rhlau. 1(3), **3(3)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 9 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

### Terfynau ar gyfer plwm a chadmiwm a datganiad o gydymffurfedd

[F2**10.**—(1) Ni chaiff y meintiau o blwm a chadmiwm a drosglwyddir o eitem geramig fynd dros y terfynau a nodir ym mharagraff (5) fel y'i darllenir gyda pharagraffau (4) a (6).

(2) Oni ddangosir nad oedd y deunyddiau a ddefnyddiwyd i wneud yr eitem geramig yn cynnwys plwm neu gadmiwm, rhaid i'r meintiau o blwm a chadmiwm a drosglwyddir o eitem geramig gael eu penderfynu drwy brawf, y pennir ei amodau yn Atodlen 3, gan ddefnyddio'r dull dadansoddi a ddisgrifir yn Atodlen 4.

(3) Ni chaiff unrhyw berson roi ar y farchnad eitem geramig nad yw'n cydymffurfio â gofynion paragraff (1) fel y'i darllenir gyda pharagraff (2).

(4) Pan fo eitem geramig yn llestr ag iddo glawr ceramig, rhaid i'r terfynau plwm neu gadmiwm (neu'r ddau) na chaniateir mynd drostynt (mg/dm$^2$ neu mg/litr) fod yr un terfynau ag sy'n gymwys i'r llestr yn unig. Rhaid cynnal profion ar wahân ac o dan yr un amodau ar y llestr yn unig ac ar arwyneb mewnol y clawr. Rhaid i gyfanswm y ddwy lefel echdyniad a geir trwy'r modd hwn ar gyfer plwm neu gadmiwm gael ei gysylltu, fel y bo'n briodol, ag arwynebedd neu â chyfaint y llestr yn unig.

(5) Mae eitem geramig i'w chydnabod fel un sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau hyn sy'n ymwneud ag eitemau o'r fath os nad yw'r meintiau o blwm a/neu gadmiwm a echdynnir yn ystod y prawf a gynhelir o dan yr amodau a osodir yn Atodlen 3 ac Atodlen 4 yn mynd dros y terfynau a ganlyn—

| | *Plwm (Pb)* | *Cadmiwm (Cd)* |
|---|---|---|
| Categori 1: Eitemau na ellir eu llenwi ac eitemau y gellir eu llenwi, nad yw eu dyfnder mewnol, wrth fesur o'r pwynt isaf i'r plân llorweddol sy'n mynd drwy'r ymyl uchaf, yn fwy na 25 mm | 0,8 mg/dm$^2$ | 0,07 mg/dm$^2$ |
| Categori 2: | 4,0 mg/l | 0,3 mg/l |
| Pob eitem arall y gellir ei llenwi | | |
| Categori 3: | 1,5 mg/l | 0,1 mg/l |
| Offer coginio; llestri pecynnu a storio sy'n dal mwy na thri litr | | |

(6) Fodd bynnag, pan na fo eitem geramig yn mynd mwy na 50% dros y meintiau uchod, mae'r eitem honno i'w chydnabod er hynny fel un sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau hyn sy'n ymwneud ag eitemau o'r fath os yw o leiaf dair eitem arall sy'n dwyn yr un siâp, dimensiynau, addurn a gwydr yn mynd drwy brawf a gynhelir o dan yr amodau a osodir yn Atodlen 3 ac Atodlen 4 ac nad yw meintiau cyfartalog y plwm a/neu'r cadmiwm a echdynnir o'r eitemau hynny yn mynd dros y terfynau a osodwyd, ac nad oes un o'r eitemau hynny yn mynd mwy na 50% dros y terfynau hynny.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Rhl. 10 wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/425), rhlau. 1(3), **3(4)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 10 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

**[**[F3]**10A.**—(1) Rhaid i berson sy'n rhoi ar y farchnad eitem geramig na ddaeth hyd yn hyn i gysylltiad â bwyd ddarparu datganiad ysgrifenedig **[**[F4]sy'n cydymffurfio â pharagraff (2)**]** i fynd gyda'r eitem yn y cyfnodau marchnata hyd at a chan gynnwys y cyfnod manwerthu.

(2) Rhaid i'r datganiad gael ei ddyroddi gan y gweithgynhyrchydd neu gan werthwr **[**[F5]ym Mhrydain Fawr**]** a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a osodir yn Atodlen 5.

(3) Rhaid i berson sy'n gweithgynhyrchu neu sydd, wrth gynnal busnes, yn mewnforio eitem geramig **[**[F6]i Brydain Fawr**]** drefnu, pan ofynnir iddo wneud hynny, fod dogfennaeth briodol ar gael i

swyddog awdurdodedig er mwyn dangos bod yr eitem geramig yn cydymffurfio â'r terfynau ymfudo ar gyfer plwm a chadmiwm a nodir yn rheoliad 10, gan gynnwys—

(a) canlyniadau'r dadansoddi a wnaed;

(b) amodau'r prawf;

(c) enw a chyfeiriad y labordy a gyflawnodd y gwaith profi.

(4) Nid yw paragraffau (1), (2) a (3) yn gymwys o ran eitem geramig sy'n ail law.

(5) Nid yw'r ddogfennaeth a bennwyd ym mharagraff (3)(a), (b) ac (c) yn ofynnol pan fo tystiolaeth ddogfennol yn cael ei darparu i ddangos nad oedd y deunyddiau a ddefnyddiwyd i wneud yr eitem geramig yn cynnwys plwm na chadmiwm.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Rhl. 10A wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/425), rhlau. 1(3), **3(5)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**F4** Geiriau yn rhl. 10A(1) wedi eu hamnewid in earlier amending provision S.I. 2019/425, rhl. 3(5) (31.12.2020) gan Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1581), rhlau. 1(2), **2(3)(b)(i)**

**F5** Geiriau yn rhl. 10A(2) wedi eu hamnewid in earlier amending provision S.I. 2019/425, rhl. 3(5) (31.12.2020) gan Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1581), rhlau. 1(2), **2(3)(b)(ii)**

**F6** Geiriau yn rhl. 10A(3) wedi eu hamnewid in earlier amending provision S.I. 2019/425, rhl. 3(5) (31.12.2020) gan Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1581), rhlau. 1(2), **2(3)(b)(iii)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 14/04/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012, RHAN 4.